942 TJ 1291 (Sal)
16
UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*Ymadawiad y Cenadau.*

# CAN,

A GYFANSODDWYD GAN

## MR. BEVAN,

Y CENADWR,

AR EI

## FYNEDIAD O BRYDAIN

I

## MADAGASCAR;

HEFYD,

## Rhai Pennillion

GAN

## *MRS. BEVAN,*

Ar yr un achlysur.

---

Caerfyrddin:
Argraffwyd gan J. Evans, yn Heol-y-farchnad.
1818.

## Cân, &c.

1 RHYFEDD râs a mawr ddoethineb
Arglwydd nef a daear lawr,
Yn ei waith yn trefnu moddion
I ddwyn i ben ei ddyben mawr;
Codi ac addurno dynion,
Sy'n ddisylw gan y byd,
I bregethu 'fengyl Iesu,
A chyhoeddi'i heddwch drud.

2 Arglwydd grasol, 'rwy'n cyfadde'
Fy mhechodau ger dy fron,
Ac na haeddais un drugaredd,
O'r lleiaf s'ar y ddaear hon;
Etto, rhoddaist im' fendithion
Lawer mwy eu gwerth nâ'r byd,
Ac am danynt 'rwy'n dymuno
Rhoddi i ti'r clod i gyd.

3 Ce's fy ngeni y'ngwlâd efengyl,
Dan ei pheraidd sain ce's fyw;
Yn ei hegwyddorion puraf
Ce's fy nysgu gan fy Nuw.
Byth mi gofiaf y gym'dogaeth
Lle y cafodd f'enaid fwyd,
Ac mi'i henwaf yn ddig'wilydd,
Ei henw ydyw *Neuaddlwyd*.

4 Byth mi gofiaf am yr ardal
Ce's fy nwyn at achos Crist,
Ac y rhoddais f' hunan iddo,
*Nantgwyn* fynydd sydd yn dyst;

2 'Rwy'n cario croes fy Arglwydd,
Pan yn ddwy ar bymtheg oed!
Rhyfeddod! O rhyfeddod!
Im' gael y fraint erioed;
Wrth nofio afon llygredd,
Fe'm daliwyd yn y rhwyd
Gan lais efengyl Iesu,
Trwy *Phillips Neuaddlwyd.*

3 Fy nghalon aeth yn fore
I feddwl am y rhai
Oedd yn eu hanwybodaeth
Yn myn'd i'r bythol wae;
Bwriedais, os cawn gyfle,
I gario'r newydd da,
Fod iddynt feddyginiaeth
Trwy Grist, o'u marwol blâ.

4 Er bod y niwl a'r t'wyllwch
Yn caead o fy mla'n;
Gwasgarodd Duw'r cymylau,
Gan chwythu'r nefol dân;
A thrwy ei ddoeth ragluniaeth
Fe drefnodd im' gael myn'd,
I ddweyd fod Iesu tirion
I ddynolryw yn ffrynd.

5 Os hyn yw 'wyllys f'Arglwydd,
Ffarwel rieni mwyn;
Er bod yn drwm ymadael,
Y baich sydd raid ei ddwyn;
Ac er bod colli dagrau
Yn friw o dan eich bron,
Cawn etto gyd-gyfarfod
'Nol darfo'r ddaear hon.

6 Fy mrodyr a'm chwiorydd
Sy'n ol yn **Mhenralltwen,*

* Ty ei Thad

Ffarwelwch, gan obeithio
Cael cwrdd tu draw i'r llen ;
Chwychwi sy'n caru'r Iesu,
Dilynwch yn y bla'n,
A byddwch oll yn barod,
Cyn delo'r duliw tân,

7 Fy mrodyr mwyn crefyddol,
Ffarwelo 'rwyf â chwi,
I fyn'd i *Madagascar*
A pherlau Calfari :
Boed hefyd iddynt ledu
Trwy gyrau Cymru o'r bron;
Nes llanwo'r ennaint gwerthfawr
Holl gonglau'r ddaear hon.

8 Ffarwel, fy nghyd 'sgolheigion
Sydd yn yr ysgol râd,
Yn dysgu'r gwirioneddau
Am berson Crist a'i wa'd ;
O mynwch brofiad hefyd
O'r pethau mawr eu gwerth,
Sef gwaith yr Ysbryd santaidd
A'i anorchfygol nerth.

9 Un arch wy'n geisio genych
Wrth gefnu ar fy ngwlad,
Cael eich gweddïau taerion
O flaen yr orsedd râd,
Am im' gael wyneb Iesu
Yn gyson ar fy nhaith,
Fel byddwy' yn ogoniant
I'w enw ac i'w waith.

DIWEDD.